

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

PERERINDOD Y TABERNACL PEN-Y-BONT AR OGWR - *parhad*

helaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'i fab, Michael D Jones ddaeth yn bennaeth Coleg Diwinyddol y Bala, oedd un o brif ysgogwyr y mudiad i sefydlu'r Wladfa Gymreig. Mae'r ddau, y tad a'r mab, wedi eu claddu yn y fynwent oddi allan i'r capel. Galw yn y Neuadd Bentref Llanuwchllyn wedyn ac edmygu cerfluniau plaster John Meirion Morris a ddangoswyd i ni gan Mrs Ann Parry Roberts cyn symud ymlaen i Lanycil lle sefydlwyd Byd Mari Jones yn hen eglwys y plwyf. Yno cawsom ein croesawu gan Mrs Alison Evans a esboniodd mai Cymdeithas y Beibl sy'n berchen yr eglwys, nawr wedi ei adnewyddu a'i throï yn ganolfan. Yn y fynwent mae bedd Thomas Charles.

Y Bala a Chapel Celyn

Capel Tegid yn y Bala oedd y cyrchfan nesaf ac yno roedd Mr Penri Jones yn ein disgwyl i adrodd peth o hanes yr adeilad hardd - prif gapel y Methodistaidd yn y rhan hon o Feirionnydd. I Gapel Coffa Capel Celyn aethon ni wedyn ac yng nghlydwch y capel (gan ei fod yn glawio tu allan) cawsom gan Mr Penri Jones hanes Gwersyll Carcharorion y Fron Goch lle cadwyd 1800 o Wyddelod yn 1916 a hanes trist boddi Cwm Celyn a cholli cymuned glos Gymreig ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf. I gyfoethogi'r profiad darllenwyd soned hyfryd O M Lloyd, *Ger Cwm Tryweryn* gan Margaret Ceredig.

Abaty Cymer a Llwyngwrl

Gwawriodd bore Sadwrn yn braf ac yn Abaty Cymer roedd Mrs Nia Rowlands yn ein disgwyl. Ganddi hi cawsom hanes diddorol yr Abaty Sistersaidd a adeiladwyd yn nechrau'r drydedd ganrif ar ddeg. Yn dilyn yr hanes cynhaliwyd rhan o wasanaeth Terce (y drydedd awr) y patrwm mynachaid a baratowyd gan y Parchg Hywel Richards a chanu'r emyn *Tyrd ysbryd glân i'n c'lonnau ni* a ledwyd gan ein gweinidog, y Parchg Dyfrig Rees. Galw ym mhentref Arthog lle'r oedd cyfeillion o'r ardal yn garedig iawn wedi paratoi paned canol bore ynghyd â danteithion blasus i ni a symud mlaen wedyn trwy Llwyngwrl i Eglwys Llangelynnin yn ymyl y môr. Yno i'n croesawu roedd y Ficer, y Parchg Lyndsey Ford, a Mr Gareth Wyn Jones a gyflwynodd hanes yr eglwys hynafol hon i ni. Tynnodd ein sylw at y lluniau wedi eu peintio ar y wal, hefyd at yr elor ddwbl anarferol a grogai yno. Tu allan i'r drws gwelsom garreg fedd Abram Wood, un o deulu enwog y sipsiwn.

Llanegryn a Brynecrug

Ymlaen at Eglwys y Santes Fair a Sant Egryn yn Llanegryn. Fe'm croesawyd gan y Ficer, y Parchg Janet Fletcher a chafwyd cyflwyniad o hanes yr eglwys gan Mr Gareth Wyn Jones. Tynnodd ein sylw at y groglen hynod a honnir ei chludo er diogelwch o Abaty Cymer a nododd hefyd mai ym mynwent yr eglwys hon y claddwyd Hugh Owen, "Apostol y Gogledd". Gadael Llanegryn am Frynecrug ac am fedd Mari Jones ym mynwent capel Bethlehem. Ar lan y bedd darllenodd Heulwen Thomas y gerdd *Ymdrech Dau* gan W D Williams sy'n gorffen â'r llinell "Beibl i bawb o bobl y byd". O Frynecrug ar hyd



ffordd gul a throellog i Lanfihangel y Pennant i weld afeilion Ty'n Ddôl, cartref Mari ac yno darllenodd Heulwen gerdd John Pinion Jones *Mari Tŷ'n Ddôl*.

Yn Eglwys Mihangel Sant cawsom gyflwyniad cynhwysfawr a chlir o hanes cestyll tywysogion Cymru ac o Gastell y Bere'n arbennig gan Beryl Thomas, un o'r pererinion. Codwyd Castell y Bere yn 1221 gan Llywelyn Fawr ac yn ei gyfnod roedd yn bwysig iawn ond erbyn hyn dim ond pentwr o gerrig sydd yno.

Dathlu'r 50

Cynhaliwyd Y Cwis arferol y noson honno yn y Llong Dolgellau ac ar ran y Tabernacl cyflwynwyd rhodd i nodi'r hanner can mlynedd i Hywel a Dilys gan y Parchg Dyfrig Rees gyda diolch iddyn nhw am drefnu'r bererindod eleni. Bore Sul roedd y Capel Coffa Llanelltud dan ei sang gan fod teulu a ffrindiau, wedi teithio o bell ac agos i fod yn yr oedfa a nodi'r achlysur arbennig - hanner can mlynedd o fod yn weinidog yr Efengyl. Wedi'r oedfa a ffarwelio â chyfeillion Llanelltud a'r cylch cyrraedd Bwyty Mawddach am ginio ardderchog. Yno ar ran ei gyd-bererinion diolchodd y Parchg Dyfrig Rees i Hywel a Dilys am drefnu'r daith eleni.



Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 45 Tachwedd 3, 2016 50c.

OEDFA PENWYTHNOS Y GANNWYLL

Llyfrau Llafar Cymru

Eglwys y Priordy - Bore Sul, 23 Hydref 2016

Yn 2012 y lansiwyd Llyfrau Llafar Cymru ar ei newydd wedd ond ym 1979 roedd y dechreuadau cyntaf i gyd a'r person allweddol y pryd hwnnw oedd Rhian Evans.

Mae Rhian yn parhau i fod yr un mor allweddol heddiw fel Is-gadeirydd y Bwrdd ac nid gormodiaith yw dweud mai hithau a'i chyd-ddiacon yma yn y Priordy, Sulwyn Thomas, Cadeirydd y Bwrdd, yw congilfeini'r gwasanaeth. Maent hwythau yn eu tro'n gwerthfawrogi'n fawr pob help a gânt gan y staff rhan-amser a'r gwirfoddolwyr ffyddlon sydd wrthi'n ddiwyd yn darllen llyfrau ac yn dyblygu a dosbarthu casetiau a chryno-ddisgiau.

Mae talu ymweliad byr â Thŷ Llafar, ym Mharc Dewi Sant, Caerfyrddin, yn ddigon i synhwyro'r bwrllwm sydd yno a'r hwyly, y mwynhad a'r boddhad a gaiff pawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith. A does dim angen dweud mor werthfawrogol yw'r deillion a'r rhannol ddall o dderbyn fersiynau sain y Llyfrau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.



Daw'r cyfoeth clywedol hwn â phleser a mwynhad mawr i gymaint ledled Cymru.

Cyllid

Her barhaus i Lyfrau Llafar Cymru yw dod o hyd i ddigon o gyllid i gynnal y gwasanaeth a'i ddiogelu i'r dyfodol. A dweud yn gryno, dyna ddiben Penwythnos y Gannwyll, sef tynnu sylw ar raddfa genedlaethol at yr angen am roddion a chyfraniadau ariannol cyson - ond hefyd at y gwasanaeth ei hunan er mwyn denu rhagor o wrandawyr a gwirfoddolwyr. Nid yn fypmpwyol ychwaith y rhoddwyd yr enw Penwythnos y Gannwyll i'r ymgyrch a daeth ei arwyddocâd i'r amlwg yn ystod yr oedfa arbennig a gynhaliwyd yn y Priordy i ddathlu'r achlysur. Fe'i lluniwyd gan ein Gweinidog, y Parchedig Beti-Wyn James a manteisiodd sawl capel arall yng Nghymru arno i ddathlu'r achlysur mewn modd tebyg. Yn wir, bu'r ymateb yn arbennig o dda.



Cannwyll

Ar ddechrau'r oedfa cawsom ein cyfarch gan Rhian Evans a hynny ar fidio oherwydd ei hanhwylder ar hyn o bryd, a chyneuwyd kannwyll gan Sulwyn Thomas. Mae'r kannwyll yn cael ei gweld fel symbol goleuni ac o obaith ar gyfer y dyfodol a'r gwirioneddau hyn fu wrth wraidd sylwadau'n Gweinidog drwy'r oedfa. A thrwy gyfrwng darlleniadau o'r Beibl, emynau a gweddiâu a chymorth testunau Pwynt Pwer daethom i werthfawrogi arwyddocâd a nodweddion symbol y kannwyll yn llawnach. Trafodwyd yn arbennig dri pheth sy'n nodweddu'r kannwyll:

- (1) Nid yw'n tynnu sylw ati'i hunan
- (2) Mae'n rhoi ei hunan, a
- (3) Mae'n rhoi o'i hunan

Golau i'r Nos

Mae gweithio dros Lyfrau Llafar Cymru, ym mhob ffordd, yn rhoi cyfle i ni ymdebygu i nodweddion y kannwyll a dod â goleuni a gobraith i'r dall a'r rhannol ddall. Un o uchafbwyntiau'r oedfa oedd gwrandao ar gân gan Tecwyn Ifan sef *Golau i'r Nos* a baratowyd yn arbennig ar gyfer Penwythnos y Gannwyll. Yn ffodus, gallwn ailwrando dro ar ôl tro ar y gân drawiadol hon gan fod modd prynu'r CD am bris rhesymol iawn a chefnogi Llyfrau Llafar Cymru'r un pryd.

Daeth cynulleidfa dda ynghyd ac yn cymryd rhan roedd aelodau'r Priordy sy'n gysylltiedig â Llyfrau Llafar Cymru mewn rhyw ffordd neu'i gilydd - Alison Parsons, Glenys Thomas, June Thomas, Alun Charles, Gareth Gravell, Phillip James a Sulwyn Thomas. Roedd Eira Phillips wrth yr organ. Aeth y casgliad at Gronfa Llyfrau Llafar Cymru.

Diolch i'n Gweinidog am oedfa mor arbennig ac i Lyfrau Llafar Cymru am gadw'r fflam ynghynn a boed bendith ar y gwaith i'r dyfodol.

Alun Charles

PERERINDOD Y TABERNACL PEN-Y-BONT AR OGWR

Dymuniad y Parchg Hywel Wyn Richards oedd bod cynrychiolaeth o'r Tabernacl Pen-y-bont ar Ogwr, ei ofalaeth ddiwethaf, yn bresennol yng Nghapel Coffa Llanelltud ar fore Sul Medi'r 11eg i nodi carreg filltir arbennig yn ei hanes. Yno ym mis Medi 1966, hanner can mlynedd yn ôl, fe'i ordeiniwyd yn weinidog yr Efengyl. Cytunwyd yn unfrydol â'r syniad gan sylweddoli bod modd cyfuno'r ymweliad â Llanelltud a'r oedfa yn y Capel Coffa â phererindod blynyddol y Tabernacl a gosodwyd yr holl drefniadau yn nwylo medrus Hywel a'i briod Dilys.

Pennal a Chefn Caer

Cychwynwyd ar y daith fore Iau Medi'r 8fed ac, wedi ymgynnull yn Aberystwyth, symud ymlaen yn garafân hir o geir tua'r gogledd gan alw'n gyntaf ym mhentref Pennal i weld yr eglwys hynafol a gysegrwyd i Sant Pedr Mewn Cadwynau. Cawsom glywed beth o hanes yr eglwys gan Hywel a sylwi ar y trawstiau, y

meinciau derw a'r pulpud cerfiedig. Yng nghefn yr eglwys roedd ffacsimili o Lythyr Pennal a llun arbennig a beintiwyd gan yr arlunydd Aneurin Jones yn dangos Cynulliad Cymru yn 1406 pan alwodd Owain Glyndŵr ei gyd-bendefigion ynghyd. Yn y fynwent oddi allan i'r eglwys roedd cyfres o lechfeini'n llunio Gardd Coffa i Dywysogion Cymru. Dan arweiniad y Parchg Hywel Richards cynhaliwyd gwasanaeth byr gan gynnwys gweddi Terry Waite sy'n diolch am gyfeillgarwch a rhyddid.

Yn y prynhawn croesawyd y pererinion i dŷ hynafol Cefn Caer gan y perchennog Mr Elfyn Rowlands a ddangosodd â chryn falchder y nenfwd hynafol, yr hen bared dias a'r hen le tân a ddadorchuddiwyd ganddo dros y blynyddoedd. Yno hefyd roedd copi o Lythyr Pennal. Yn ôl un traddodiad mae'n bosibl

mai yno yng Nghefn Caer yr ysgrifennwyd y llythyr gwreiddiol gan fod y tŷ neuadd yno yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Dwy Lan

Fore Gwener ein cyrchfan cyntaf oedd Yr Hen Gapel Llanuwchllyn. Yno roedd y gweinidog, y Parchg Carwyn Siddall, yn barod i adrodd peth o hanes Mam Eglwys Annibynwyr Meirionnydd. Y Parchg Michael Jones oedd y gweinidog am ran

parhad ar y dudalen gefn



Mawredd lle bu Mieri

Fel y gŵyr pawb ohonom digon digalon yw'r sefyllfa ar draws yr enwadau, ar wahân i rai eithriadau prin. Diolch am y llecynnau sydd yn llawn brwdfrydedd a gobaieth yn edrych ymlaen yn hytrach na chofio yn ôl. Beth tybed yw'r rheswm am ein digalondid? Yr ydym yn mynd drwy gyfnod pan mae "Gair yr Arglwydd yn brin a gweledigaeth yn anfyfych". Wrth feddwl am a geiriau yna yn 1 Samuel 3: 1, cofiais am adroddiad ar radio Iwerddon wrth dreulio gwyliau yn Dinas Sir Benfro yn dechrau'r wyth degau. Roedd gohebydd yn holi Monsignor James Horan ar gyrion pentre bach Knock yng ngogledd Orllewin Iwerddon ac, yn y cefndir roedd sŵn peiriannau trymion. Gofynnodd y gohebydd iddo, "Can you tell what are you doing here?" "Yes," atebodd, "I'm building an International Airport". "I'm told," ychwanegodd y gohebydd "you haven't got planning permission". That's right atebodd "we will get that later", "I'm also told you haven't got any money", "that's right we will get that later as well".



Gweledigaeth

Dyna beth yw gweledigaeth. Do, fe ddaeth yr arian gan y llywodraeth, gan y trigolion a'r diaspora Gwyddelig dros y byd ac yn arbennig o'r Unol Daleithiau. Ond paham ar ddaear gorsiog Knock?, Wel mae'n debyg ar yr unfed ar hugain o Awst 1879 cafodd pymtheg o'r trigolion yn cynnwys gwragedd a bachgen ifanc weledigaeth ryfeddol. Gwelont yn glir ger yr eglwys y Forwyn Fair, Joseph, ac Ioan yr efenglydd. 'Roedd 'na allor Croes ac Oen a llu o angylion. Fe barhaodd yr ymddangosiad am tua dwy awr. Fe sefydlwyd comisiwn i holi'r tystion yn drwyadl a'r penderfyniad terfynol oedd bod yr ymddangosiad distaw yn un dilys. Fe adeiladwyd Creirfa (Shrine) ac fe ddechreuodd y pererinion gyrchu i'r lle. Yn y flwyddyn 1979 ymwelodd y Pab Ioan Paul yr ail a'r Greirfa i ddathlu canmlwyddiant yr ymddangosiad a glanio a chusanu'r tarmac yn y Maes Awyr .

Knock

Roedd pentre bach Knock bellach yn wybyddus drwy'r byd. Disgrifiwyd y pentref yn 1879 fel "a shanty village with muddy pavements". Heddiw mae'n Bentre' cymen blodeuog gyda Basilica godidog yr ail fwyaf yn Ewrop mewn gerddi hardd ffrwythlon ger yr hen eglwys sydd heddiw mewn cyflwr hyfryd. Gweledigaeth un dyn yr offeiriad James Horan. Bellach mae'n gyrchfan blynyddol i tua miliwn a hanner o bererinion o bob cwr o'r byd. Ym mis Chwefror eleni dadorchididwyd Mosaic trawiadol sy'n mesur 14 x 14 medr o'r hyn welodd y pymtheg. Fe'i gwnaethpwyd yn yr Eidal a'i gludo yn fil pum cant o ddarnau o wydr a marmor a'u osod at ei gilydd yn wynebu'r gynulleidfa. Talwyd am dano gan unigolyn er cof am ei briod a'i deulu.

Nawent

Braf oedd cael cyfle i dreulio pythefnos yno ym Mis Awst eleni. Cynhaliwyd Nawent (Novena) sef naw niwrnod o weddi a myfyrdod ar y thema maddeuant. Cynhaliwyd dwy offeren bob dydd, un am dri'r prynhawn a'r llall am 8 yr hwyr ynghyd a llu o gyfarfodydd eraill. Llywyddwyd pob oedfa gan offeiriad Knock y Tad Richard Gibbons. Gwahoddwyd offeiriad gwadd i bregethu ym mhob gwasanaeth. Roedd naw ecwmenaid i'r dathliad oherwydd ar y dydd Mercher y pregethwr gwadd oedd Y Parchg Dr Ruth Patterson y ferch gyntaf i'w hordeinio yn yr eglwys Bresbyteraid yn Iwerddon. Ei swydd bresennol yw "Director of Restoration Ministries" Mudiad anenwadol sydd yn ymroddedig dros faddeuant a chymod a heddwech. Pregethodd yn ddeallus ac yn sensitif ar yr angen i gyfannu pobol ar draws y wlad, "Gorchymyn newydd yr wyf yn ei rhoddi i chwi, ar garu ohonoch eich gilydd: fel y cerais i chwi, ar garu ohonoch chwithau bawb eich gilydd". Cefais y cyfle i fynychu tair offeren a syndod ym mhob oedfa oedd clywed y gynulleidfa o dros ddeg mil yn adrodd heb lyfr gydag un llais "Credo Nicea. Roedd gwahoddiad cynnes i bawb dderbyn cymundeb. Bendithiwyd yr Elfennau gan yr offeiriad gyda geiriau cyfarwydd i bob anghydfurfiwr, "Wele oen Duw sydd yn tynnu ymaith bechodau'r byd". Ac o fewn hanner awr roedd y gynulleidfa anferth wedi cymuno.



Cymeradwyaeth

Un peth diddorol oedd bod y gynulleidfa fel un yn rhoi clap i'r pregethwr. Rwyf fi erbyn hyn wedi traddodi rhai cannoedd o bregethau ond hyd yn hyn ni chefais glap erioed a ni wn am unrhyw bregethwr arall chwaith a gafodd y fath glod. Tybed beth ddywed hynny am ein pregethu ni? Yn ôl tystiolaeth y plwyfolion mae 'na adfywiad ysbrydol wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Dywedont fod tua phum mil o drigolion Talaith Mayo yn addoli ar Sul cyffredin yn y Basilica. Anodd oedd peidio meddwl yng ngorfoledd amlwg y gwasanaethau yma am y sefyllfa nes adre yng nghwm Tawe. Caewyd dros y degawdau diwethaf chwe eglwys o Dreforys i Ystalyfera, yn cynnwys eglwys hynafol Llan-giwg lle bu addoli cyson o'r chweched ganrif, heb sôn am y capeli.

Yr olygfa drist sy'n taro unrhyw ymwelydd â Phontardawe yw o fewn can llath bob ochor i'r groesffordd mae dau gapel. Horeb, capel y 'Wesle ac Adulam capel y Bedyddwyr yn dadfeilio "Mieri lle bu Mawredd". Mae stori ryfeddol knock yn enghraifft o beth gall pentre' bach a phoblogaeth o dan fil wneud os oes gweledigaeth a'r bobol gyda "chalon i weithio". Holed pob dyn ei hun. Efallai fod rhywbeth o hyd y gallwn ni ei ddysgu gan yr hen Fam.

Eifion Evans

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Rhagrybuddion

Dyddiau Gweinidogion Eglwys Annibynnol y Gogledd a'r De

Yn y De:

**Capel Bethania,
Tymbl Uchaf, SA14 6ED
Dydd Mercher,
23 Tachwedd 2016
Cychwyn am 10.30am**

Yn y Gogledd:

**Capel Coffa,
Cyffordd Llandudno, LL31 9HG
Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2016
Cychwyn am 10.30am**

Darperir cinio am ddim
ar y ddau ddiwrnod

Cyhoeddir enwau'r siaradwyr cyn
gynted â phosibl

Golygyddol

ABERFAN ATGOFFA O'R GYFLAFAN

Drwy gyfrwng y gwahanol sianelau ar y teledu cawsom ein hatgoffa hyd yma o'r gyflafan enbyd a gymerodd le ar fore Gwener Hydref 21, 1966. Dwyflwydd-ahanner oed oeddwn i ar y pryd, a does gen i ddim cof o'r 'effaith' a gafodd ar bobl. Ond, wrth gwrs, fel pawb arall, yng nghwrs y blynyddoedd dilynol, deuthum yn ymwybodol iawn o'r digwyddiad a'i effeithiau. Ac oes, mae angen ein hatgoffa o'r hyn ddigwyddodd gan mai cyfalafiaeth a thrachwant pwr fu'n gyfrifol am y cyfan. A dydi rhai pethau ddim yn newid - er eu bod ar raddfeydd gwahanol.

DEWRDER A MENTER

Wrth wyllo rhaglen 'The Young Wives of Aberfan' ar y ITV nos Fawrth, Hydref 11, 2016, a chael cyfle i 'gyfarfod' a rhai o'r mamau a gollodd eu rhai bach yn y gyflafan, fedrai rhywun ddim ond eu hedmygu am eu dewrder, ond yn ychwanegol at hynny, eu parodrwydd i symud ymlaen gan ddal i edrych yn ôl. Cofio, wrth gwrs, yr hyn ddigwyddodd, ond eto i beidio ag aros yn eu hunfan. Ac fe wnaethont hynny drwy ffurfio'r grwp fu'n deitl i'r rhaglen deledu.

GWELEDIGAETH

Ar S4C y noson flaenorol, cafwyd rhaglen ddogfen bwerus iawn yn dwyn y teitl 'Yr Ymchwiliad' oedd yn mynd i wraidd achos y cwbl. Nid fy lle i yw dadansoddi'r holl frwydro fu i sicrhau tegwch i'r rhai a archollwyd, ond mi fedrai gyfeirio at weledigaeth grŵp o weinidogion o dan

arweiniad un gŵr a'i briod. Pan ddeuthum i Borthmadog yn weinidog yn 1993, ymhlith yr aelodau yn Salem, yr oedd yna ŵr a gwraig oedd a'u cartref yn un o'r mannau mwyaf dymunol yn y Port, sef ar yr harbwr neu'r cei. Enw'r tŷ oedd 'Tŷ Toronto', ac enwau'r ddau oedd yn byw yno oedd Erastus ac Eluned (Lun) Jones. Wedi ymdddol i Borthmadog oedd y ddau rhyw ddegawd cyn hynny. Er ei fagu yn Lerpwl, roedd gan Erastus neu Ras fel y'i gelwid, gysylltiadau teuluol a Borth-y-Gest ger Porthmadog. Nid oeddwn yn adnabod yr un o'r ddau o gwbl hyd nes y deuthum yma, er i Ras a nhad fod yn ffrindiau yng Ngholeg Bala-Bangor.

Gŵr o weledigaeth wahanol i'w gyfnod oedd Ras, ac fe gyrhaeddodd ef a Lun, ei wraig, i Aberfan yn fuan wedi'r gyflafan i geisio gosod cyfeiriad newydd i'r trigolion. Wedi cyrraedd, sicrhawyd carafan gan Eglwys Cymraeg Canada a'i galw'n, ie, 'Tŷ Toronto.' Wedi dyddiau'r garafan, symudwyd i dŷ yn y pentref, ac yn y garafan i ddechrau, ac yna'r tŷ, y byddai grŵp o weinidogion o dan ei arweiniad ef yn cyfarfod. Y prif fwgan i drigolion yr ardal oedd parhad y tipiau glo, a thrwy weithgarwch diflino'r grŵp hwn, drwy 1967 ac 1968 ceisiwyd darbwyllo'r Llywodraeth i symud y tipiau, a brwydr fu hi - un ddiidostur. Yn y diwedd llwyddwyd i



Tŷ Toronto. Y garafan yn Aberfan 1967 - 1971

ddarbwyllo George Thomas i'w symud, ond yr amod a osododd ef oedd y dylai trigolion Aberfan dalu cyfran o'r arian a roddwyd iddynt wedi'r trychineb, i wneud hynny. Erchyll! Didrugaredd!

YR EGLWYS YN Y BYD

Gydol ei weinidogaeth, dyma oedd pregeth fawr Erastus Jones, sef y dylem fynd a'r Efengyl i ganol holl broblemau byd gyda'r newyddion da yn Iesu Grist. Credai y dylai'r Efengyl a'r Eglwys fod yng nghanol diwydiant, yng nghanol gwleidyddiaeth, a thrwy hynny yn gosod cyfeiriad cadarn.



Erastus Jones

GWERTHFAWROGIAD

Gwn hyd heddiw fod i Erastus a Lun Jones barch dwfn yng nghylch Aberfan a hefyd ym Mlaendulais, lle gweinidogaethodd am flynyddoedd. Ac y mae i'r ddau ohonynt barch parhaol yn Nyffryn Madog lle buont fyw ym mlynyddoedd eu hymddeoliad. Collodd Lun ei hiechyd, a thorodd Ras ei galon ar ei hôl wedi blynyddoedd o ofalu amdani. Buont yn ffyddlon i bopeth dyrchafol yn y cylch hwn ac yn gefn i weinidog. Cafodd ei ddweud yn ddiweddar mai gresyn na welodd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn dda i'w ethol yn Llywydd ar bwys ei waith mawr yng nghymuned ddrylliedig Aberfan. Ond dyna fo, does dim anrhydedd i broffwyd yn ei wlad ei hun...yn reit aml. Ond y mae yna anrhydedd iddo/i ymhlith y bobl a brofodd o'i weithgarwch a'i gariad, ac yn sicr gan yr Un a'i galwodd i'r gwaith. A dyna sy'n cyfri yn y pen draw.

Iwan Llewelyn

AT Y GOLYGYDD

Gohebiaeth

At y Golygydd,

Roedd hi'n ddiddorol clywed am hanes y cyfarfod a drefnwyd gan Gwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin ar y thema 'Heddwch-rhyw ddydd' (*Tyst*, Medi 22). Er hynny, a ydyw gosodiad Dafydd Iwan fod Saunders Lewis yn `gwrthod gweld ein daear yn cael ei defnyddio at ddefnydd rhyfel' yn wir? Hyd y cofiaf, yn araith orchestol S.L. yn y llys wedi'r tân yn Llŷn, wrth iddo egluro ei resymau dros gynnu'r tân, roedd yr holl bwyslais ar warchod ein hetifeddiaeth ddiwylliannol. Yn ôl yr hanes, roedd y gŵr mawr hwnnw yn honni mai'r amser a dreuliodd ym myddin Lloegr oedd gyda'r hapusaf a brofodd erioed. Efallai y gall rhywun sy'n gwybod mwy amdano na mi fy ngoleuo, a'm cywiro, os ydwyf yn anghywir. Gyda llaw, ni allaf yn fy myw ddeall

arwyddocâd y dywediad mai dim ond ffŵl sydd yn gofyn pam mae eira yn wyn. Bu gwyddonwyr yn ceisio ateb cwestiynau tebyg ers oesoedd, gan ehangu'n gwybodaeth am y greadigaeth - a hynny er mawr fudd i bob un ohonom.

Tom Davies,
Llanisien, Caerdydd

GWEINYDDU'R CYMUN

Y Parchg Aled Jones yn cynnal
dwy sesiwn ym

Methlehem Gwaelod-y-garth

Tachwedd 15 a
Thachwedd 17

rhwng 7.00 a 9.00 y.h.

Croeso cynnes i unrhyw un o
eglwysi'r de ddwyrain

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg CYNORTHWY-YDD PERSONOL I'R YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn chwilio am unigolyn brwdfrydig ac egniol i weithio yn Nhŷ John Penri, Abertawe.

Gwahoddir ceisiadau gan rai sydd o argyhoeddiad Cristnogol, ac sy'n drwyadl ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg.

Ceir disgrifiad llawnach o'r swydd,
amodau gwaith a chyflog,
a ffurflen gais gan:

Yr Ysgrifennydd Gweinyddol,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes, Glanyrafon,
Bro Abertawe, ABERTAW. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888
e-bost: ann@annibynwyr.cymru

Dyddiad cau: 17 Tachwedd 2016
Cynhelir y cyfweiliadau ar
7 Rhagfyr 2016